Un o Asiantaethau Gweithredol Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yw Tŷ'r Cwmnïau. Mae'n cyflogi dros 1,000 o bobl ac yn gyfrifol am gorffori a diddymu cwmnïau o dan y Ddeddf Cwmnïau a deddfwriaeth gysylltiedig.

Band C (TG) Datblygwr Perl (Pen Blaen)

Cyflog: £23,389 – £28,306

Mae'r buddion eraill yn cynnwys: cynllun pensiwn, 30 diwrnod o wyliau blynyddol, 10.5 diwrnod o wyliau statudol, amrywiaeth fawr o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd, parcio ar y safle

Lleoliad: Caerdydd

Nifer y swyddi: 1

Cyfle parhaol yw hwn

Oriau Gwaith: Amser llawn/Rhannu swydd

Prif rôl yn y tîm:
Mae'r Tîm Datblygu Cyflenwi Datrysiadau Busnes yn chwilio am unigolion sydd â'r tueddfryd angenrheidiol i hyfforddi mewn sgiliau i ddatblygu'r elfennau o wahanol systemau Tŷ'r Cwmnïau nawr ac yn y dyfodol. Mae gweithio gyda dadansoddwyr, cwsmeriaid a thimau cymorth yn hanfodol i alluogi datblygu gofynion i mewn i'r systemau TG (yn bennaf y systemau pen blaen).

Mae'r systemau Pen Blaen/Gwe wedi'u hadeiladu o gwmpas y technolegau canlynol: Perl, CSS ac HTML. Bydd angen amrywiaeth eang o sgiliau ar gyfer y rôl, a bydd hyfforddiant a mentora'n cael eu darparu i lenwi unrhyw fylchau yn y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr ymgeiswyr.

Cymwyseddau Craidd a Phenodol i'r Swydd:

Hanfodol

- Profiad o ddatblygu mewn iaith OO.
- 2 flynedd o brofiad cadarn mewn peirianneg meddalwedd OO y gellir ei drosglwyddo i amgylchedd Perl.
- Cyfathrebu (ysgrifenedig a llafar) ardderchog gyda phersonél ar amrywiaeth o lefelau.
- Sgiliau ardderchog o ran gweithio tîm a sgiliau rhyngbersonol ardderchog.
- Sgiliau cryf o ran datrys problemau.
- Y gallu i flaenoriaethu a gweithio o fewn terfynau amser ac ar yr un pryd ymdrin â gofynion sy'n gwrthdaro.

- Y gallu i godi sgiliau newydd yn gyflym a'u defnyddio mewn ffordd briodol.
- Hunan-ysgogiad a brwdfrydedd

Dymunol
- Profiad o wasanaethau a sgemâu XML
- Dealltwriaeth a phrofiad o ddatblygu ar gyfer systemau aml-haen a chanolwedd.
- Profiad o ddatblygu rhaglenni cronfa ddata – ANSI SQL.
- Brofiad o ddatblygu gyda Perl.
- Rhywfaint o brofiad o Apache a Linux.
- Gwybodaeth sylfaenol am Java

Y cyfleoedd a gynigir:
Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i chi weithio mewn amgylchedd TG heriol gan ryngweithio ag amrywiaeth o ddefnyddwyr Tŷ'r Cwmnïau. Byddwch hefyd yn gallu cyfnerthu a datblygu sgiliau mewn amrywiaeth o dechnolegau

Cyfeirnod y swydd: SR/12/12r

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Mawrth 22 Mai 2012

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau gweithgaredd fel rhan o'r broses dethol ar gyfer recriwtio

Mae Tŷ'r Cwmnïau'n gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau gan ddynion a menywod o bob cefndir a grŵp ethnig, gan gynnwys rhai ag anableddau.

regulated by Civil Service Commission
regulated by Civil Service Commission